

Claire Homard
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)



Your Ref/Eich Cyl

Our Ref/Ein Cyf CH

Date/Dyddiad

Ask for/Gofynner am Claire Homard

Direct Dial/Rhif Union 01352 704190

Annwyl Riant/Ofalwr,

Diolch i chi am eich cefnogaeth, dealltwriaeth ac amynedd dros y tri mis diwethaf. Rwy'n ddiolchgar i chi am bopeth rydych wedi'i wneud i gynorthwyo â gwaith dysgu eich plant, ysgol eich plentyn a'r awdurdod lleol ar yr adeg anodd hon.

Bydd y llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi o ran dysgu seiliedig yn yr ysgol ar gyfer pob disgybl a darpariaeth gofal plant brys ar gyfer plant cymwys, a fydd ar gael yn Sir y Fflint am weddill tymor yr haf gweddill tymor yr haf a fydd nawr yn dod i ben ar 17 Gorffennaf fel y trefnwyd yn wreiddiol.

Y rheswm dros hyn yw nad yw Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur wedi llwyddo i gytuno ar y cynnig i ymestyn tymor yr haf hyd at 24 Gorffennaf, fel y cyhoeddwyd yn flaenorol gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams. Roeddem wedi gobeithio y byddai'r materion hyn wedi cael eu datrys ond yn absenoldeb cytundeb cenedlaethol, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniad er mwyn rhoi digon o amser i ysgolion allu cynllunio'n briodol. Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai gan ysgolion ddigon o staff ar gael i weithredu'n ddiogel yn ystod y bedwaredd wythnos ar sail wirfoddol gan nad yw staff wedi'u rhwymo dan gontract i weithio yn ystod y gwyliau. Yn gyntaf oll, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau diogelwch ei ddisgyblion a'i staff.

Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Addysg o ran ailagor ysgolion, mae'r awdurdod lleol yn awyddus i weithio gydag ysgolion a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod pob disgybl yn elwa o gyfle i ailgydio â'u hysgolion, dal i fyny â'u cyfoedion ac athrawon, a pharatoi ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf.

O ddydd Llun 29 Mehefin, bydd ysgolion Sir y Fflint yn dechrau derbyn eu disgyblion eu hunain i fynychu sesiynau a nodwyd a bydd ysgol(ion) eich plentyn/plant yn rhannu'r wybodaeth hon â chi'n uniongyrchol.

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk



The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth o ran cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr a sicrhau iechyd a diogelwch yr holl ddysgwyr a staff, ni fydd ysgolion yn gweithredu darpariaeth llawn amser ar gyfer pob disgybl yn ystod y cyfnod hwn o tair wythnos, ac ni fyddwn yn dychwelyd i addysgu'r cwricwlwm llawn chwaith. Ni fydd pob disgybl yn dychwelyd ar unwaith, a phan fyddant yn dychwelyd, mae'n bosibl y bydd y diwrnod ysgol yn dechrau a gorffen ar wahanol amseroedd ar gyfer gwahanol ddysgwyr. Gallai hyn gynnwys gwahanol drefniadau ar gyfer brodyr a chwiorydd o wahanol oedrannau sy'n mynychu'r un ysgol.

Oherwydd bod pob adeilad ysgol yn wahanol o ran maint a gosodiad, ac oherwydd y bydd gan bob ysgol wahanol niferoedd o staff ar gael i ddychwelyd i'r gwaith, ni fydd cynnig safonol i bob plentyn yn Sir y Fflint ar gyfer y cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharato'i' hwn. Bydd pob ysgol, yn seiliedig ar eu hasesiadau risg eu hunain, yn gwneud cynnig i'w disgyblion o ran nifer ac amseriad sesiynau cyswllt. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir i ysgolion a chynghorau bod modd i benderfyniadau o ran sut i weithredu ar gyfer y cyfnod byr hwn o ddychwelyd i'r ysgol cyn gwyliau'r haf gael eu gwneud ar lefel yr ysgol. Bydd pob ysgol yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i rieni am eu trefniadau penodol trwy eu dulliau arferol o gadw mewn cysylltiad.

Fodd bynnag, mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud un penderfyniad allweddol a gaiff ei fabwysiadu gan bob ysgol gynradd ar gyfer y cyfnod hwn, sef **na fydd** plant oed Meithrin yn cael dychwelyd i'r ysgol cyn gwyliau'r haf. Mae hyn oherwydd na fydd plant ifanc iawn yn gallu cadw pellter cymdeithasol diogel. Mae hefyd oherwydd y bydd y gofal agos ac weithiau bersonol sydd ei angen ar y plant ifanc iawn hyn yn anodd ei reoli mewn lleoliadau ysgol a gallai eu rhoi nhw a'r staff sy'n gofalu amdanynt mewn rhagor o risg o bosibl. Gallai'r newidiadau i'r ffordd y bydd ysgolion yn gweithredu fod yn annifyr i blant ifanc iawn. Mae nifer o gynghorau eraill ar draws Cymru wedi gwneud penderfyniad tebyg.

Caiff cynlluniau eu datblygu yn y dyfodol agos i sicrhau trefn ofalus i blant oed meithrin ddychwelyd pan fyddant yn symud i ddosbarthiadau Derbyn ym mis Medi, a hefyd cyfleoedd sefydlu addas i'r garfan newydd o blant a fydd yn dechrau dosbarthiadau Meithrin yn nhymor yr hydref.

Mae'n bwysig nodi, yn ystod y cyfnod hwn, mae croeso i rieni a gofalwyr benderfynu a fyddant am anfon eu plant i'r ysgol ai peidio. Pe bai rhieni/gofalwyr yn penderfynu peidio ag anfon eu plant i'r ysgol yn ystod tymor yr haf, ni chânt eu cosbi. Os byddwch yn dewis peidio ag anfon eich plant i'r ysgol, byddant yn parhau i gael yr un gefnogaeth o'r cartref i'r ysgol ag maen nhw wedi'i gael hyd yma.

Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, bydd canolbwynt ar les disgyblion a mwynhad o ddysgu yn yr awyr agored, lle a phan fo hyn yn ymarferol, yn eu hamgylchedd dysgu penodol. Bydd cyfle i drafod gyda nhw sut aeth eu dysgu o bell a rhai cyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu â gweithgareddau eraill i ymarfer sgiliau allweddol, e.e. llythrennedd a rhifedd. Oherwydd y bydd hwn yn amser rhyfedd i'r

disgyblion i gyd, waeth beth yw eu hoedran, mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion i feddwl yn ofalus am y rhaglen o sesiynau dal i fyny sy'n cael eu cynnig a fydd yn parhau i gael eu hategu gan ddysgu ar-lein hefyd.

Cefnogaeth gofal plant brys ar gyfer gweithwyr allweddol a phlant diamddiffyn

Yng ngoleuni'r penderfyniad i agor ysgolion er mwyn i'r holl ddysgwyr gael cyswllt â ni cyn gwyliau'r haf, bydd newidiadau sylweddol i'n darpariaeth gofal plant brys ac mae angen i ni eu gweithredu fel mater o frys.

Ddydd Gwener 19 Mehefin, bydd canolfannau gofal plant brys Sir y Fflint yn cau. O ddydd Llun 22 Mehefin tan ddydd Gwener 17 Gorffennaf, caiff gofal plant brys ei ddarparu yn ysgol eich plentyn gyda'r un oriau gweithredu ag a ddarparwyd eisoes a gyda'r un gefnogaeth ar gyfer arlwygo a chlodiant. Bydd lleoedd yn parhau i gael eu trefnu trwy ysgol eich plentyn.

Sylwch fod rheolau Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer y lleoedd hyn, e.e. plant gweithwyr allweddol neu blant a nodwyd fel diamddiffyn. Bydd nifer y lleoedd sydd ar gael yn gyfyngedig wrth i ysgolion geisio parhau i gynnig y ddarpariaeth hon yn ogystal â rhoi cyfle i blant eraill 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi'. Gofynnir i rieni ystyried defnyddio'r gofal plant brys hwn dim ond os nad oes darpariaeth amgen addas ar gyfer eu plant ac os ydynt yn bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru o weithwyr allweddol.

Cynghorir rhieni/gofalwyr nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau a fydd darpariaeth gofal plant brys ar gael yn ystod cyfnod gwyliau'r haf yr ysgol (h.y. rhwng dydd Llun 20 Gorffennaf a dydd Mawrth 1 Medi). Rydym yn aros am rhagor o gyngor gan Lywodraeth Cymru.

Gofal Plant ar wahân a Grwpiau 'Ailgydio' – lleihau'r perygl o drosglwyddo

Ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru, sefyllfa Sir y Fflint yw **na ddylai plant fod yn symud** rhwng y grŵp gofal plant brys a'r 'sesiynau ailgydio/dal i fyny'. Mae hyn yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws rhwng dwy garfan wahanol o ddisgyblion. Ein cyngor yw bod angen i blant sydd wedi cael mynediad i'r gofal plant brys hyd yma gael eu cadw yn y garfan honno am weddill tymor yr haf. Mewn gwirionedd, mae'r garfan hon eisoes wedi cael cyfnodau sylweddol o gyswllt â staff cyfarwydd sydd wedi'u galluogi i 'ailgydio a dal i fyny'.

Caiff disgyblion sy'n cyrraedd ar gyfer y sesiynau 'ailgydio' newydd eu cadw ar wahân. Os bydd rhiant yn gwneud cais i'w plentyn gael mynediad i'r sesiynau dal i fyny, ni allant wedyn gael mynediad i'r ddarpariaeth gofal plant am weddill tymor yr haf. Bydd angen i rieni wneud dewis rhwng y naill a'r llall. Os bydd rhiant cymwys yn dewis i'w plentyn gael mynediad i 'ailgydio a dal i fyny' o 29 Mehefin yn hytrach na'r gofal plant brys, cyn belled nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau o'r Coronafeirws, nid oes rheswm pam na all eu plentyn ymuno â'r sesiwn dal i fyny cyntaf a ddynodir, ond dim ond y sesiynau dal i fyny dynodedig hynny y gallant gael mynediad iddynt wrth symud ymlaen.

Dod â phethau o gartref, darparu prydau bwyd, gwisgo gwisg ysgol

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu mai dim ond cyn lleied â phosibl o bethau y dylid dod i mewn i'r ysgol o gartref. Dyma un o'r rhesymau pam mae'r Cyngor wedi penderfynu darparu pecynnau cinio i'r holl ddisgyblion dros y cyfnod byr hwn cyn diwedd y tymor yn rhad ac am ddim.

Oherwydd na fydd peiriannau dŵr yn ddiogel i'w defnyddio yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'n afresymol caniatáu i ddisgyblion fod â photel o ddŵr o gartref, ond dylid nodi eu henw yn glir arni ac ni ddylid ei rhannu ag unrhyw un arall. Yn yr un modd, byddai offer angenrheidiol arall, e.e. cas pensiliau, yn cael eu caniatáu, ond eto, caiff disgyblion eu hannog i beidio dod ag eitemau diangen eraill gyda nhw.

Anogir disgyblion i wisgo gwisg ysgol ond bydd ysgolion yn hyblyg, gan gydnabod y bydd nifer o blant wedi tyfu allan o'u dillad a'u hesgidiau a bydd rhieni am aros tan ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd cyn buddsoddi mewn gwisg newydd. Dylid bod modd golchi'r dillad yn rhwydd. Bydd ysgolion yn darparu rhagor o gyngor am hyn.

Plant sydd yn sâl

Rydym yn gofyn i rieni wirio nad yw eu plentyn yn arddangos unrhyw symptomau **Coronafeirws** neu **unrhyw salwch arall** cyn eu hanfon i'r ysgol.

Mae canllawiau clir i ysgolion ar reoli disgyblion sydd efallai'n datblygu symptomau Coronafeirws yn ystod y dydd a bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni / gofalwyr ar unwaith.

Gyda'r trefniadau newydd hyn ar waith i reoli dysgwyr yn ddiogel, ni fydd gan ysgolion y gallu i ofalu am lawer o blant sy'n mynd yn sâl o achos anhwylderau arferol plentyndod yn ystod y dydd a galw rhieni / gofalwyr i gasglu plant. Oherwydd hyn, rydym yn gofyn i rieni / gofalwyr wneud penderfyniad yn y bore o ran os ydynt am anfon eu plentyn i'r ysgol ai peidio yn hytrach na'u hanfon i mewn a 'gweld sut maent yn teimlo'. Bydd hyn o gymorth i gadw nifer y disgyblion sâl mor isel â phosibl.

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Ers 18 Mai, mae Sir y Fflint wedi gwneud taliadau uniongyrchol i bob rhiant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac sydd wedi darparu eu manylion cyfrif banc i ni. Bydd y taliadau hyn yn parhau dros y cyfnod o dair wythnos pan fydd ysgolion yn ailagor, a thrwy wyliau'r haf.

Mae trefn o ddychwelyd i drefniadau mwy arferol ar gyfer talu am brydau ysgol a darparu prydau ysgol am ddim yn cael ei datblygu ar gyfer mis Medi a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn nes at yr amser.

Rydym yn awyddus i wneud popeth a allwn i roi sicrwydd i chi am ein hymdrechion ar y cyd yn y Cyngor ac yn ein hysgolion i gefnogi lles emosiynol a chorfforol dysgwyr yn ystod yr wythnosau o'n blaenau. Mae pob ysgol wedi cael deunydd cefnogaeth a chanllawiau sylweddol i'w galluogi i gynllunio ar gyfer ailagor ac i weithredu'n ddiogel.

Edrychwn ymlaen at weld cynifer ag sy'n bosibl o blant cyn diwedd tymor yr haf. Os oes gennych ragor o gwestiynau am y ddarpariaeth i'ch plant, dylid eu gofyn i'r ysgolion maen nhw'n eu mynychu.

Yn ddiffuant

Claire Homard

Claire Homard

Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid